

Beth yw barn myfyrwyr, rhieni/gwarcheidwaid, ysgolion a cholegau ar y Rhaglen Hyfforddiant Teithio'n Annibynnol



HE, disgybl a gwblhaodd yr hyfforddiant teithio'n llwyddiannus ym mis Mai 2025

Thank you so much it's been amazing working with you as well I have loved it and will miss our little talks thank you so much for all you have taught me through the weeks xx

16:15

**Ben, Cydlynnydd Hyfforddiant Teithio
Annibynnol**

Fel hyfforddwr teithio, mae'n ffrainc cefnogi pobl ifainc ar eu taith i annibyniaeth.

Mae gweld y newid yn eu hyder a'u personoliaeth yn rhoi boddhad.

Mae galluogi pobl ifainc i symud ymlaen yn eu bywydau yn swydd anhygoel a gwerth chweil.



Shwmae Ben

Diolch yn fawr am dy holl waith caled gyda fy nisgyblion. Mae'r hyfforddiant wedi bod o fudd iddyn nhw. Dywedodd un o'r disgyblion ei bod hi mor falch o'r hyn y gwnaeth hi ei gyflawni ddoe, a byddai hi'n dweud wrth ei mam ar ôl cyrraedd gartref. Rydw i hefyd wedi rhannu lluniau ar Twitter y bore 'ma. Diolch eto

**Tiwtor Cwrs Llwybrau Galwedigaethol / Cwrs Cyfrifiadurol i Bobl ag Amhariad
ar y Golwg**



Alex, Cynorthwy-ydd Hyfforddiant Teithio'n Annibynnol

Cefnogi unigolion i fod yn annibynnol yw rhan orau fy swydd. Rwy'n mwynhau bod yn rhan o wyllo hunan-barch a hyder myfyrwyr yn datblygu.

Rwy'n cael cwrdd a gweithio gyda phobl ifainc caredig a meithrin perthynas gadarnhaol â nhw i gyd.

Rwy'n teimlo boddhad mawr yn fy swydd pan fydd myfyriwr yn cwblhau'r Rhaglen Hyfforddiant Teithio yn llwyddiannus.



Mae Hyfforddiant Teithio wedi darparu amrywiaeth o fanteision i'r disgyblion yma ym Mryn Celynnog, o safbwynt damcaniaethol ac ymarferol. Rydw i wedi gweld eu hyder yn datblygu'n aruthrol o ran diogelwch ar y ffyrdd a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyn wedi bod yn amlwg o'r ffaith bod disgyblion eleni wedi teithio i Gaerdydd gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar eu pennau eu hunain yn ystod penwythnosau. Dydy hyn ddim yn rhywbeth y byddai'r disgyblion wedi gallu'i wneud cyn iddyn nhw ymgymryd â Hyfforddiant Teithio. Yn ogystal â'r agwedd diogelwch ar y ffyrdd, mae Hyfforddiant Teithio hefyd wedi cael effaith ar leihau'r pryder a'r gorbryder y mae disgyblion wedi'u teimlo wrth bontio o'r pencadlys i'r coleg. Mae'r Rhaglen Hyfforddiant Teithio wedi gallu lleddfu'r pryder ynghylch sut y byddan nhw'n teithio i'r coleg ac yn ôl, felly mae hyn wedi dileu un pryder mawr.

Athrol/Athrawes Dosbarth Cynnal Dysgu Bryn Celynnog



Shwmae Ben,

Datganiad gan ddisgybl Blwyddyn 10

Rydw i wedi dysgu am beryglon yr hyn a allai ddigwydd a chanlyniadau peidio â stopio, meddwl ac edrych cyn croesi'r ffordd. Mae wedi fy helpu i ddweud wrth blant eraill sy'n iau ac sydd ddim yn gwybod beth i'w wneud.

Athro/Athrawes- Roedd y daith gerdded yn y gymuned o fudd mawr i'r disgyblion. Roedd modd iddyn nhw roi eu sgiliau ar waith yn dilyn gwersi ar ddiogelwch ar y ffyrdd gyda'r garfan deithio.

Diolch LR



YSGOL
AFON WEN

Emma, Cynorthwy-ydd Hyfforddiant Teithio'n Annibynnol

Mae helpu pobl ifanc i oresgyn y rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu wrth ddod yn annibynnol yn rhoi cymaint o falchder i fi. Mae dod yn hyderus ar drafnidiaeth gyhoeddus yn borth i ddod yn oedolyn ifanc hyderus ac yn agor byd o bosibiliadau. Mae'n anrhydedd bod yn rhan o broses bontio mor bwysig ym mywyd person.

